

## 'FYDDWCH CHI'N DAL DIG, NEU 'FYDDWCH CHI'N MADDAU?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch y brodyr i ddadwreiddio o'u calonnau unrhyw duedd i fod yn hawdd eu brifo a dal dig. Helpwch nhw i weld sut i osgoi teimladau o'r fath a sut i gael eu gwared nhw os ydynt yn codi. Magwch ddymuniad cadarn i efelychu Jehofah wrth ddangos cariad a thrugaredd. Anogwch bawb i wneud pob ymdrech i ddatrys anawsterau a maddau y naill i'r llall o'r galon

### **MAE GAN BAWB FEIAU, MAE PAWB YN BECHADURIAID** (6 mun.)

'Does neb heb bechod, heb fai (Salm 51:5; Preg 7:20; Rhuf 3:23; *it*-2 18)

Yn y pen draw mae pawb yn llithro, o ran y tafod yn arbennig (Iago 3:2; *w*78 5/15 7)

'Rydym yn tueddu i geisio gwneud yn fach o'n gwendidau ein hunain

Fel rheol yn meddwl fod eraill yn waeth pechaduriaid na ni (Lc 6:42)

Mae'r Beibl yn cynghori bod yn ostyngedig, gan ystyried eraill yn deilyngach na ni (Phil 2:3)

Rhaid dilyn yr esiampl mae Jehofah yn ei gosod ynglŷn â bod yn faddeugar (Eff 4:32)

### **'FYDD JEHOFAH DDIM YN DAL DIG** (10 mun.)

Mae gan Dduw le i fod yn ddig gyda ni oherwydd ein camweddau

Yn ein cyflwr pechadurus, 'rydym yn gyson fethu â chyrraedd ei ofynion

Er ei fod yn mynegi dicter cyflawn ar adegau, 'ydd Jehofah ddim yn "meithrin ei ddipter" (Salm 103:9)

Mae Duw yn maddau i'r rhai sy'n gadael drygioni (Eseia 55:7; *sl* 111-12)

Mae'n goroesi ni'n dibynnu ar faddeuant Jehofah

Enghreiffitiau o Jehofah yn maddau i unigolion

Fe fu i'r Brenin Manasseh ddigio Jehofah yn fawr, ond fe gafodd faddeuant wedi iddo edifarhau (2Cron 33:10-13)

Maddeuwyd i'r mab afradlon gan ei dad, a'i groesawu â breichiau agored hyd yn oed

Dyna ddangos galon fawr Jehofah (Lc 15:11-32; *gt* 86)

Galwodd Paul ei hun y 'blaenaf o bechaduriaid,' eto maddeuwyd iddo a'i ddefnyddio'n helaeth yn weinidog Duw (1Tim 1:15; *lp* 111-12)

### **PEIDIWCH Â BOD YN UN HAWDD EICH BRIFO** (6 mun.)

Rhaid peidio â bod yn hawdd eich brifo gan yr hyn mae eraill yn ei ddweud amdanom

Sylweddolwch ein bod ni weithiau yn digio eraill (Preg 7:21, 22; *g*89 7/22 19)

'Ydym ni'n cael ein brifo'n hawdd oherwydd balchder, yn ein cymryd ein hunain ormod o ddifrif? (Preg 7:9; *w*77 415-16)

Pan gawn ein camgynrychioli, yn aml 'does dim angen gwneud môr a mynydd o'r peth

O gael ei gyhuddo o fod yn feddwyn glwth, 'wnaeth Iesu ddim mynd i ddadl ynglŷn â'r peth

Fe wyddai y byddai ei weithredoedd yn gwrthbrofi'r cyhuddiad (Mth 11:19; *it*-1 964)

'Roedd Dafydd yn troi clust fyddar i bobl ddadleugar (Salm 38:12-15)

Fe ddysgodd mai'r peth gorau oedd dibynnu ar Jehofah a disgwyl wrtho

### **MAE TUEDD YN RHAI I DDAL DIG** (8 mun.)

Ystyriwch y sefyllfa ddamcaniaethol hon

Mae problem fach bersonol gennych ac 'rydych yn ymddiried y peth i ffrind agos. Mae e'n addo peidio â dweud wrth neb. Yn ddiweddarach 'rydych yn deall fod eraill yn gwybod am eich problem chi

Sut byddech chi'n teimlo tuag at eich ffrind? 'Fyddech chi'n penderfynu terfynu'r cyfeillgarwch? 'Fyddech chi'n dweud, "Mi wna' i ei gyfarch e ond peidio â gwneud dim rhagor ag e. Mi wna' i gadw draw oddi wrtho"?

Peidiwch â brysio i ddod i gasgliadau, a gwylltio (Diar 29:20, 22)

Meddylwch: Ai dim ond difeddwl oedd y brawd? 'Wnaethoch chi eich hun rywbeth tebyg erioed? Ai camddealltwriaeth oedd e efallai? 'Oedd e'n ceisio cyngor pellach a fedrai fod yn ddefnyddiol i chi? A ellir gwneud yn fach o'r peth, ei anwybyddu, a'i faddau? A oedd hi mor bwysig â hynny i gadw'r peth yn gyfrinachol? 'Ydych chi'n berffaith sicr mai ef oedd yr un a drosglwyddodd y wybodaeth i'r person arall? (Diar 19:11; *g*87 5/8 22-3; *g*74 3/8 3, 4)

Mae'r Beibl yn ein cynghori ni i beidio â dal dig (Lef 19:18; *w*72 707)

Mae magu casineb yn gallu arwain yn uniongyrchol at frifo cymydog, hyd yn oed at weithredu'n eithafol

Os dilynwn reddf naturiol, fe allem ni ddod i beidio â hoffi'r person

Gall anhoffter wedi'i fwydo gan gadw'n bell droi yn atgasedd

Mae atgasedd yn emosiwn cryf iawn, bydd yn eich niweidio chi (*w*87 7/1 3-4)

Fe allech chi fagu agwedd fileinig tuag at y person (Mth 5:21, 22; *w90* 10/1 13)

Gallai hyd yn oed arwain at ddial

Sut byddwch chi'n eich trin eich hun mewn amgylchiadau o'r fath? 'Fyddwch chi'n dal dig, neu 'fyddwch chi'n maddau?

Mae parhau yn flin oherwydd pechod rhywun arall yn chwalu perthynas rhwng pobl, yn "codi cynnen" (Diar 29:22; *w90* 9/15 22; *g80* 5/8 24)

Mae'n achosi problemau priodasol ac yn chwalu trefn y teulu

Mae'n rhwystr i agosrwydd rhwng brodyr yn y gynulleidfa

### **PEIDIWCH Â DAL DIG, OND BRYSIWCH I FADDAU** (10 mun.)

Mae parodrwydd i faddau yn brawf o wir gariad at eraill

Haws rhoi rhodd sy'n werthfawr yn faterol nag i arfer haelioni drwy faddau (*w79* 9/1 3, 4)

'Ydym ni'n teimlo fod ein cariad yn ddiffuant a'n bod ni'n hael ein maddeuant? (Mth 18:21, 22; *w88* 3/1 8, 9)

Gweithredwch ysbryd maddeugar yn y teulu

Dyma sylw a wnaed: "Priodas hapus ydi uno dau sy'n barod iawn i faddau i'w gilydd" (*w79* 9/1 4)

Maddeuwch gamgymeriadau yn hael

O'ch gwirfodd maddeuwch i'ch gilydd yn y gynulleidfa

Mae'n angenrheidiol er mwyn hapusrwydd ac anogaeth pawb, yn enwedig yn achos drwgweithredwr sy'n ceisio maddeuant

Mae drwgweithredu yn dod â gwaradwydd ar y gynulleidfa, yn effeithio ar ysbryd y gynulleidfa

Dylai pawb yn y gynulleidfa fynegi maddeuant dilys at y rhai gwirioneddol edifeiriol (2Cor 2:5-11; *w77* 693)

Maddeuwch yr helynt, y gwaradwydd, a'r tristwch a ddaeth i ran y gynulleidfa oherwydd eu drwgweithredu (*w72* 437)

'Dyw Jehofah ddim yn anwybyddu rhai gwirioneddol edifeiriol, mae'n gosod esiampl sy'n rhaid ei dilyn (Salm 51:17; *w93* 3/15 16)

Dysgwch frysio i faddau

Peidiwch â thadogi cymhelliad drwg ar weithredoedd pobl eraill

Ceisiwch setlo pethau ar unwaith (Eff 4:26; *w90* 9/15 21)

Peidiwch â thalu "drwg am ddrwg" (1Pedr 3:8, 9; *g80* 1/8 4)

Mae maddeuant yn hyrwyddo heddwch; dial yn hyrwyddo cynnen

Maddeuwch ac anghofio hefyd (*w92* 7/15 29)

### **PARHEWCH YN Y FFORDD FADDEUGAR** (5 mun.)

Mae cariad yn ein galluogi ni i faddau i'n brodyr a chwiorydd a pharhau yn ffordd faddeugar Jehofah (Mth 6: 14, 15; 1Cor 13:5; *w90* 5/15 19; *w72* 708)

Maddeuwch, ac osgoi'r effeithiau niweidiol mae dial yn eu cael ar hunan ac eraill (*ce* 206-7)

Osgowch gyfeillachu â'r rhai sy'n dal dig (Diar 22:24, 25; *g87* 5/8 23)

Efelychwch Jehofah, esiampl berffaith o un sy'n maddau (Salm 103:3; Esec 18:22)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)